Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 10 TACHWEDD 2008

Mis i heddiw (10 Rhagfyr 2008) mi fydd hi'n Ddiwrnod Hawliau Dynol, dyma'r dyddiad y mabwysiadwyd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a hynny yn ôl yn 1948 – 60 o flynyddoedd yn ôl. Soniwyd mewn sawl e-fwletin bellach am y digwyddiadau y mae Morlan yn eu trefnu i nodi'r pen-blwydd arbennig hwn. Byddant yn cychwyn dydd Llun nesaf am 6.45 gydag anerchiad gan **Syr Emyr Jones Parry** (cyn-gynrychiolydd Prydain yn y Cenhedloedd Unedig a Llywydd Prifysgol Cymru Aberystwyth) ar y thema ***'Pam fod dal angen y CU ar ôl 60 mlynedd'***. Bydd yn annerch yn Saesneg ond bydd cyfle i holi cwestiynau ar y diwedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Cadeirir y noson gan Simon Thomas, ac mae mynediad am ddim.

Nodir manylion digwyddiadau eraill Morlan sy'n dathlu chwedegmlwyddiant y Datganiad isod.

- **7.00, nos Fercher, 3 Rhagfyr: *60 Mlynedd o Hawliau Dynol?*** – noson gymdeithasol o drafod a chanu gyda Chôr Gobaith (cyd-drefnwyd gan Morlan a changen leol Amnest Rhyngwladol). Bydd y drafodaeth ar y thema *'Dadleuon Hawliau Dynol'* dan arweiniad yr Athro Ken Booth. Mynediad trwy gyfraniad gyda'r elw yn mynd at Amnest Rhyngwladol a Médecins Sans Frontières; darperir lluniaeth ysgafn.
- **7.30-11.00, nos Fercher, 10 Rhagfyr: *Gig dros Hawliau Dynol*** gyda Gruff Rhys, Euros Childs a Triattica (gig di-alcohol wedi'i anelu ar gyfer pobl ifanc 15-18 oed). Tocynnau: £8 (ar gael o Morlan).
- **1-21 Rhagfyr: rhagflas o arddangosfa Same Difference** – prosiect arloesol yw *Same Difference* sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn cynyddu dealltwriaeth o faterion datblygiadol byd-eang a materion hawliau dynol trwy ddefnyddio celf a chreadigrwydd. Daw'r arddangosfa lawn i Morlan ym mis Mawrth a bydd yn cynnwys gweithdai i blant lleol - rhai celf (dan ofal *Same Difference*) a rhai barddoniaeth (dan ofal Ifor ap Glyn) .
- **Nos Sul, 11 Ionawr: *O Blith fy Mhobl*** – cyflwyniad gan Gwmni'r Morlan (tynner eich sylw at ddyddiad newydd y noson hon).

Mawr obeithiwn y byddwch yn dod i gefnogi o leiaf un o'r digwyddiadau hyn – a dowch â'ch ffrindiau efo chi!

Peidiwch ag anghofio chwaith am y noson **Dweud ei Ddweud** nesaf gyda'r Parch. Gwynn ap Gwilym. Thema trafodaeth y noson hon fydd ***'Y Rhwyg yn yr Eglwys'***. Bydd y noson yn cychwyn am 7.30 a bydd mynediad am ddim.

Nodir isod gweddill y digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Morlan dros yr wythnosau nesaf.

- 10.30-4.00, dydd Sadwrn, 15 Tachwedd: Cynhadledd Genedlaethol Amnest Rhyngwladol Cymru yn cynnwys anerchiadau a gweithdai, a pherfformiadau gan Gôr Gobaith a Samba Agogo.
- 6.00, nos Sul, 16 Tachwedd: Gwasanaeth Amnest (arwyddo cardiau Nadolig i garcharorion cydwybod).
- 11.00-4.00, dydd Gwener, 21 Tachwedd: *Gwneud y Cysylltiadau* (gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CAVO) – manylion pellach ar hysbysfwrdd Morlan, neu ffoniwch CAVO (01570-423232).
- 2.00-5.00, dydd Mercher, 26 Tachwedd: Fforwm Pobl 50+ (Cyngor Sir Ceredigion)

- 7.00, nos Fercher, 26 Tachwedd: Trafodaeth ar ryfeloedd (Iraq, Afghanistan ...) a sut mae rhoi terfyn arnynt. Cadeirydd: Cynog Dafis (trefnwyd gan Rwydwaith Heddwch a Chyfiawnder Aberystwyth).

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr